5.73

# TANCHWA ECHRYDUS

**Yng Nglofa yr Universal,**

# = SENGHENYDD =

**Am 8.30 foreu Mawrth, Hydref 14, 1913.**

---

*O'r 935 ddisgynodd i'r lofa am 6 o'r gloch y boreu uchod, achubwyd 496; bu farw 6 o'r olaf yn fuan wedi eu dwyn allan, gan wneud rhif y lladdedigion yn 445. . . .*

---

O SENGHENYDD! mae dy enwi
Yn fy ngwneyd yn fud a gwyw;
Mae fy enaid wedi 'i wasgu
I ddirgelwch nos fy Nuw:
Toraist ynwyf fedd nas dichon
I anghofrwydd byth ei gau:
Heddyw gwn beth ydyw calon
A marwolaeth drwyddi'n gwau.

Cofiaf byth y boreu hwnw,
Droes fy newydd dref yn sarn,—
Dydd y Danchwa! dydd y galw
Fy nghyfeillion cain i farn;
Clywais ddorau tragwyddoldeb
Yn agoryd dan fy nhraed,
Ac mae twrf eu difrifoldeb
Eto'n crynu ar fy ngwaed.

Eon. 205. 6.1.14.

Heibio " Pedwar Cant " o'm brodyr
  Wedi cael eu llosgi'n fyw
Yn y dyfnder! Blin yw ystyr
  Tori deddfau trefn fy Nuw!
Do, mewn eiliad aeth y cannoedd
  Dros ymylon poen a braw,
Ar adenydd mellt eu hingoedd,
  I ororau'r Byd a ddaw!

Ti, sy'n llosgi glô y ddaear,
  Ar dy aelwyd mewn mwynhad,
Cofia mai ei werth di-gymar
  Ydyw gwaed y glowr mad!
Mae gruddfanau yn ei losgiad,
  A thrychineb yn ei liw;
A cheir difrod yn ei fflachiad
  Na ŵyr neb ei bris ond Duw!

Ddydd y Danchwa, llawer teulu
  I drueni wnaed yn ddellt,
A Senghenydd sydd yn crynu
  Eto yn y mwg a'r mellt;
Do, dymchwelwyd llawer anedd,
  I ddyfnderoedd gwae a chur,
A bydd cysgod y gelanedd
  Yn dragwyddol ar ein tir.

Ofer ceisio tynu darlun
  O'r ofnadwy ffwrnes flin,—
Ffwrnes sydd o hyd yn enyn
  I'r tragwyddol dros y ffin;
Mae y meirw wedi tewi,
  Ond mae'r 'storom yn parhau,—
Deil ei nwy o hyd i losgi
  Yn nghalonau briw ein pau!

Os taw gwanc am olud ydyw
  Achos y gyflafan hon,
Dylid rhoddi cleddyf distryw
  Deddf Uniondeb yn ei fron;
Gormod yw rhoi cnawd ac esgyrn
  Cyrph y glowyr dewr ar dân,—
Er cyfodi cestyll cedyrn
  I ormeswyr Cymru lân.

Esgeulusdod ydyw *damwain*,
  Nis gall fod lle na bo cam ;
Tori deddfau dry y ddaear
  A'i thangnefedd pur yn fflam ;
Byth na feier Duw fy nhadau
  Am y golled hon,—mae Ef
Yn rhy dyner ei drefniadau
  I gynhyrchu marwol lef.

Nid Efe sy'n gwneyd Senghenydd
  Heddyw 'n donau o bruddhad ;
Eto medra droi 'r ystormydd
  Mwyaf beiddgar yn lleshad !
Dyn yw awdwr "Plant amddifaid,"
  Nid oes dial yn fy Nuw,—
*Trosedd* sydd yn creu trueiniaid,—
  *Pechod* ydyw *methu* byw.

O Senghenydd ! pwy all beidio
  Teimlo drosot yn dy gur ?
Mae'r sawl baid dy gynhorthwyo
  Yn llochesu calon ddur ;
Llawn angladdau yw dy galon,
  'Storm o alar yw dy fryd,
Beddau yw calonau 'th weddwon—
  Ni thyf blodyn yn dy fyd !

W.106 22.

Tyred! tyred, fwyn dosturi,
  I'r amddifad gwna dy ran;
Cwyd y weddw dlawd o'i chyni,
  Erglyw ei hochenaid wan;
Dyro flodyn ar y gweryd
  Gedwir byth gan ddagrau'n llaith,
I adgofio'r ffyddlon fywyd
  Drengodd yn ei "ddillad gwaith."

Coder colofn *aur* i gofio
  Dewrion "Byd y cystudd mawr,"
Cerfier ar y golofn hono
  Ddarlun dwyfol—"Toriad gwawr:"
Colofn fydd a defnydd canu
  I drueiniaid yn ei chol,—
Colofn y Gwroniaid hyny
  Na ddychwelant byth yn ol!

CALON DROM.

(COPYRIGHT).

*Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.*

CARDIFF PUBLIC LIBRARIES